- Yn ystod eitem 6 fe wnaeth y Cynghorydd Stuart Ashley ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu gan ei fod wedi ymwneud â'r cais yn y gorffennol mewn perthynas â'r materion yn y ward hon ac nid oedd yn teimlo'n gymwys i bleidleisio ac fe adawodd y cyfarfod.

3. Cofnodion Pwyllgor Cynllunio - 21/08/18

- 3.1 Cytunodd yr Aelodau fod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 21 Awst 2018 i'w cadarnhau fel cofnod cywir.

4. Cais Cynllunio - 13/P/00464

Defnyddio'r ardd i ddatblygu ac adeiladu 2 dy annedd sengl (cynlluniau diwygiedig) ar Dir gerllaw Llewetrog, Middle Coedcae Road, Blaenafon.

- 4.1 Dangosodd yr Uwch Gynllunydd gynlluniau a ffotograffau, gan amlygu'r pwyntiau canlynol:
- Roedd y cynnig am ddau dy annedd preswyl yng ngardd ochr yr eiddo presennol Llewetrog.
 - Byddai'r anheddau yn ddau lawr, wedi'u dylunio mewn ffordd draddodiadol a byddai ganddynt 4 neu 5 ystafell wely.
 - Byddai mynediad presennol i Lewetrog o Ffordd Ganol Coedcae yn cael ei ledu i'r eiddo cyntaf ei ddefnyddio a byddai mynediad i'r ail eiddo o Brookside.
 - Roedd y safle arfaethedig ar lethr.
 - Ymgynghorwyd ag wyth eiddo cyfagos ar y cais a derbyniwyd dau wrthwynebiad. Roedd pryderon y gwrthwynebwyr yn cynnwys:
 - Colli preifatrwydd ac edrych dros eu heiddo.
 - Yr effaith ar y ffos sydd yn rhedeg ar hyd y ffin gyda Llewetrog.
 - Roedd mynediad o Brookside ar hyd lôn breifat nad oedd dan reolaeth y ceisydd.
 - Mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd mae Swyddogion wedi ychwanegu amod i'r cais oedd yn ei gwneud hi'n angenrheidiol cyflwyno rhybudd cwrs dŵr cyn dechrau ar y gwaith. O ran y mynediad drwy Brookside roedd yn fater sifil ac nid oedd yn ystyriaeth cynllunio.
- 4.2 Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd Siaradwyr Trydydd Parti i annerch y Pwyllgor.
- 4.3 Fe wnaeth Mr Ronald Dando (gwrthwynebydd) amlygu'r materion canlynol:
- Roedd yn byw yn 7 Brookside oedd gerllaw'r safle arfaethedig.

- Roedd cyn-berchennog 7 Brookside wedi prynu Ffordd Brookside ac roedd yn parhau i fod yn eiddo i Brookside.
- Gwerthwyd y ffordd ar yr amod ei bod yn parhau i fod yn hawl tramwy sy'n galluogi mynediad i breswylwyr Brookside i ac o eu cartrefi.
- Pan oedd perchennog blaenorol 7 Brookside yn absennol, fe wnaeth perchennog Llewetrog adeiladu dreif heb Ganiatâd Cynllunio na chaniatâd gan berchennog y Ffordd.
- Roedd y dreif yn dod o ardd Llewetrog ac ar y ffordd yn Brookside oedd eisoes yn achosi problem iddo gyda dŵr llifogydd.
- Pe byddai Caniatâd Cynllunio yn cael ei roi, gofynnodd am atodi amod yn nodi y dylai'r holl gerbydau adeiladu a chyflenwi fynd i mewn i'r safle drwy'r brif fynedfa i Lewetrog o Ffordd Coedcae, gan y byddai mynd i mewn drwy Brookside yn anghyfleustra enfawr i breswylwyr yn ogystal â bod yn niweidiol i ffordd heb arwyneb.

4.4 Fe wnaeth Mr Barrie Davies (asiant) godi'r pwyntiau canlynol:

- Cyflwynwyd y cais yn 2013 ac roedd wedi bod yn nwylo'r Awdurdod Cynllunio am gyfnod hir, ac roedd yn obeithiol y gallent ddod i gasgliad cadarnhaol heddiw.
- Roedd safle'r cais wedi bod yn eiddo i'r ceiswyr am gyfnod hir ac roedd yn cynnig adeiladu dau dy annedd yn yr ardd sylweddol yn Llewetrog.
- Adeiladwyd Llewetrog gan y ceisydd yn 1969 ac roedd wedi bod yn gartref i'r teulu ers hynny. Cyn adeiladu Llewetrog roedd y teulu yn berchen ar 7 Brookside er i hwn gael ei werthu yn 1974 a'i fod wedi'i feddiannu wedi hynny gan Mr Dando.
- Prif bryderon Mr Dando oedd p'un a oedd gan y ceiswyr hawl tramwy i safle'r cais o Brookside, fodd bynnag mae Llewetrog wedi elwa ar ddau bwynt mynediad ers i'r teulu fod yno. Nid oedd y ceisydd o dan unrhyw amheuaeth bod hawliau sefydledig, fodd bynnag mater cyfreithiol ac nid mater cynllunio allai fod yn rheswm dilys dros wrthod.
- O ran diogelwch ar y priffyrdd, nid oedd Swyddogion Cynllunio yn ystyried y byddai datblygu un annedd gyda mynediad oddi ar Brookside yn arwain at gynnydd sylweddol yn y defnydd o'r lôn.
- Yr unig bryder arall oedd pa mor agos oedd y tŷ annedd arfaethedig i'r cwrs dŵr, fodd bynnag roedd Swyddog Draenio'r Cyngor yn fodlon cyn belled ag y byddai amod a nodyn gwybodaeth ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd a roddir.
- Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan unrhyw Ymgynghoredigion Statudol neu Gyngor y Dref.

4.5 Fe wnaeth Aelodau godi pryder ynghylch Cerbydau Nwyddau Trwm yn mynd i'r safle drwy Brookside gan ei fod eisoes yn mynd yn brysur gyda rhieni'n parcio yno i gasglu eu plant o'r ysgol.

4.6 Gofynnodd Aelodau nifer o gwestiynau a rhoddodd Swyddogion yr ymatebion canlynol:

- Roedd y mater ynghylch mynd i mewn i'r safle drwy Brookside yn fater sifil ac ar wahân i gynllunio. Byddai angen i'r ceisydd ddatrys y mater a sicrhau hawliau'n gyfreithiol cyn dechrau ar y gwaith adeiladu.
- Roedd Llewetrog gyferbyn â'r ysgol a byddai unrhyw fynediad yn achosi amhariad am gyfnod byr o amser.
- Gellid ychwanegu amod at y cais i ofyn i'r Cerbydau Nwyddau Trwm fynd i mewn i'r safle drwy Ffordd Coedcae Canol.
- Ni fyddai'r mynediad ar gyfer un tŷ annedd oddi ar Brookside yn achosi difrod sylweddol i'r ardal o ystyried bod garej yno o'r blaen.
- Roedd Brookside yn ffordd nad oedd wedi cael ei mabwysiadu ac nid oedd yn briffordd a gynhelir yn gyhoeddus.
- Pan gynhaliwyd ymweliad safle yn 2014 nid oedd y mynediad i'r safle wedi tyfu'n wyllt fel y dangosir yn y lluniau a dynnwyd yn fwy diweddar.

4.7 Fe wnaeth Aelodau gytuno'n unfrydol i gymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad a gofyn i'w pryderon ynghylch Cerbydau Nwyddau Trwm yn mynd i mewn i'r safle drwy Brookside gael eu nodi.

5. Cais Cynllunio - 18/P/0129/FUL

Pencadlys Heddlu Newydd, maes parcio aml-lawr, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig ym Mhlot C2 a C3, Parc Diwydiannol Llantarnam, Cwmbrân.

- 5.1 Dangosodd Arweinydd y Tîm (Ceisiadau) ffotograffau o'r ddau ddarn o dir lle byddai'r datblygiad wedi'i lleoli a dangos lluniau o sut y byddai'r cynnig yn edrych a gwneud y pwyntiau canlynol:
- Cynhaliwyd Archwiliad Safle gan Aelodau ym mis Gorffennaf.
 - Roedd y cais am Bencadlys Heddlu newydd a maes parcio ar ddau ddarn o dir.
 - Byddai blaen y Pencadlys ar Llantarnam Parkway. Byddai'n adeilad tri llawr gydag ôl troed crwm a byddai'n cael ei offen mewn amrywiaeth o ddeunyddiau.
 - Byddai'r adeilad yn darparu ar gyfer swyddfeydd ac ystafell reoli'r heddlu. Ni fyddai unrhyw wasanaethau golau glas yn gweithredu o'r cyfleuster.
 - Roedd adeilad ffermdy rhestredig gerllaw'r safle ar gyfer adeilad y Pencadlys.
 - Byddai'r maes parcio yn adeilad tri llawr gyda llawr agored ar y trydydd llawr, a byddai'n darparu 432 o fannau parcio a mynediad diogel i gerddwyr.
 - Yn wreiddiol roedd swyddogion wedi codi pryderon gydag ymddangosiad gweledol y maes parcio ac roedd y cynllun wedi'i ddiwygio i gyflwyno nodwedd esgyll lliw er mwyn gweddu gyda'r ardal gyfagos.
 - Oherwydd gofynion diogelwch yr Heddlu roedd y cynnig yn cynnwys ffens diogelwch i'w godi, fodd bynnag nid chafwyd cytundeb eto mewn perthynas â dyluniad y ffens a byddai amod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd a roddir.
 - Roedd y cynnig yn caniatáu i Heddlu Gwent barhau i fod wedi'u lleoli yn Nhorfaen ac roedd hefyd yn darparu 500 o swyddi.
 - Byddai angen cytundeb Adran 106 i ddiogelu lliniaru ecolegol.

- 5.2 Fe wnaeth aelodau godi pryderon ynghylch traffig mewn ardal oedd eisoes yn brysur ac roedden nhw'n teimlo na fyddai'r rhwydwaith ffordd yn gallu ymdopi gyda'r galw ychwanegol os na fyddai unrhyw welliant i'r rhwydwaith. Fe wnaethant hefyd nodi nad oedd gwasanaethau bws yn ddigonol a'i bod hi'n anodd iawn i gerddwyr groesi Cwmbrân Drive.
- 5.3 Dywedodd Aelodau bod y traffig yn mynd yn ôl ar y tri chylchfan gerllaw yn mynd yr holl ffordd lawr i Falpas gan ei gwneud hi'n beryglus yn ystod adegau prysur.
- 5.4 Ychwanegodd Aelodau y byddai gwella a chynnal y llwybrau cerdded ar Cwmbrân Drive, a gwella'r llwybr beicio yn annog pobl i gerdded a beicio i'r gwaith.
- 5.5 Mewn ymateb i gwestiynau Aelodau, rhoddodd Swyddogion yr atebion canlynol:
- Roedd gan Llantarnam Parkway a'r ardal gyfagos lawer o fannau parcio ar y stryd, a byddai hyn yn awgrymu bod busnesau'n ffynnu. Roedd hefyd yn uniongyrchol ar rwydwaith priffordd strategol.
 - Roedd cais teithio ynghlwm wrth y cais. Roedd angen i Swyddogion ddangos y byddai'r traffig a gynhyrchir gan y datblygiad yn cael effaith sylweddol ar y rhwydwaith priffyrdd, fodd bynnag ac eithrio adegau prysur roedd yr ardal yn gweithredu'n dda.
 - Roedd hi hefyd yn bwysig ceisio annog busnesau i ddefnyddio dulliau eraill o deithio i'r gwaith fel beicio, trafndiaeth gyhoeddus neu rannu ceir.
 - Roedd cynnig fel rhan o'r datblygiad i wella'r llwybr beicio a darparu cyfleusterau bws ar y stryd. Fodd bynnag, roedd y gwasanaethau bws yn gweithredu ar sail fasnachol ac roedd hi i fyny i'r cwmnïau bws weld p'un a oedd hi'n ariannol ymarferol i gyflwyno mwy o wasanaethau bws yn yr ardal honno.
 - Roedd problemau traffig ledled y fwrdeistref, fodd bynnag roedd Llantarnam Parkway wedi'i gynllunio ar gyfer defnydd busnes a diwydiannol ac ar hyn o bryd roedd dau safle gwag. Roedd y cynnig yn defnyddio'r ddau safle, byddai un safle yn cyflogi nifer fawr o bobl a byddai maes parcio aml-lawr yn meddiannu'r ail safle. Byddai'n anodd dweud y byddai'r datblygiad yn achosi problemau traffig mawr yn ychwanegol i'r hyn oedd yn bodoli eisoes. Pe byddai Aelodau'n dweud nad oedden nhw am weld mwy o draffig ar y ffyrdd hynny, byddai'n cyfyngu ar lawer o ddatblygiadau yn yr ardal gan fod y ffyrdd wedi'u dylunio ar gyfer defnydd diwydiannol ac o safbwynt polisi, ac roedd hi'n fuddiol ac yn dderbyniol i ddefnydd busnes a diwydiannol gael eu lleoli yno.
 - Roedd dyheadau tymor hwy i wella'r rhwydwaith beicio ledled Torfaen a gallai rhai o'r dyheadau hynny gynnwys gwahanu graddau wrth fannau croesi. Fel rhan o'r datblygiad roedd Swyddogion yn cynnig ehangu'r rhwydwaith beicio a diweddarau'r llwybr troed hyd at y gamlas.
 - Byddai Swyddogion yn cysylltu â'r cwmnïau bws i roi gwybod iddynt am faint y datblygiadau yn yr ardal gan y byddai'n gwneud synnwyr masnachol i wella'r gwasanaeth bws drwy Llantarnam Parkway gyda'r Pencadlys newydd wedi'i leoli yno a byddai'n helpu i leddfu problemau traffig pe byddai pobl yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

- Roedd Swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu mewn perthynas â dyluniad y maes parcio, byddai'r diwygiadau oedd yn cynnwys y dyluniad mympwyol gydag esgyll yn cuddio'r maes parcio'n effeithiol.
- Roedd Swyddogion wedi codi pryderon mewn perthynas â'r ffens diogelwch ac yn archwilio opsiynau eraill gyda'r heddlu. Roedd Swyddogion yn teimlo ei bod yn bwysig i gyflwyno'r prif gynnig o flaen y pwyllgor gydag amod ynghylch y ffens ynghlwm. Pan fydd cytundeb yn cael ei wneud ynghylch y ffens byddai Swyddogion yn dod â dyluniad arfaethedig i'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad.
- Roedd y staff yn gweithio patrymau sifftiau a byddai llif y traffig wedi'i wasgaru drwy gydol y dydd.
- Er nad oedd yn gyflogaeth newydd i Dorfaen, roedd yn cynnal cyflogaeth yn y fwrdeistref fel nad oedd rhaid i weithwyr lleol deithio y tu allan i'r sir.
- Roedd y ddau ddarn o dir wedi'u dyrannu ym mholisi EET1 LDP ar gyfer cyflogaeth.
- Roedd y cynnig gwreiddiol ar gyfer y maes parcio yn eithaf plaen ac roedd Swyddogion yn teimlo y byddai ychwanegu esgyll yn uwchraddio ymddangosiad y maes parcio ac y byddai'n gwella golwg yr hyn oedd yn adeilad digon iwtilitaraidd swyddogaethol a ddefnyddir ar gyfer parcio.
- Roedd gan y cladin esgyll yr un faint o ofod o amgylch y maes parcio cyfan fodd bynnag roedd ganddo effaith gweledol gwahanol wrth edrych arno ar onglau gwahanol.
- Pan gynigiwyd datblygiadau tai roedd Swyddogion yn gallu sicrhau gwelliannau priffyrdd mwy gan fod datblygiadau tai yn cynhyrchu arian, fodd bynnag cyfrifoldeb yr awdurdod priffyrdd oedd gwella ac edrych ar dagfeydd ar y briffordd ac ni allai'r Cyngor ddisgwyl i un cais cynllunio unigol ddatrys problemau'r rhwydwaith priffyrdd.
- Gan fod y pencadlys yn gyfleuster newydd, cymerodd yr Heddlu gyngor gan eu hymgyngorwyr diogelwch a ddywedodd wrthyn nhw i godi ffens ac ni fyddai Swyddogion am gwestiynu'r angen i ddarparu diogelwch. Roedd Swyddogion wedi gwrthwynebu ffensys ar y safle yn y gorffennol ond o ystyried y perygl diogelwch roedd rhaid derbyn yr angen am ffens.
- Byddai Swyddogion wedi hoffi i'r maes parcio gael ei adeiladu o garreg gyda thirlunio o'i amgylch fodd bynnag mae costau yn atal hynny.
- Cyflwynwyd cynllun tirlunio gyda'r cynnig.
- Roedd Swyddogion eisoes wedi edrych ar nifer o gynigion ar gyfer y ffens diogelwch, byddai angen cael mur cynhaliol oherwydd lefelau gwahanol y tir. Byddai Swyddogion yn parhau i archwilio syniadau amgen ar gyfer y ffens diogelwch i nodi'r opsiwn gorau cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor.
- Nid oedd Swyddogion yn ymwybodol p'un a oedd yr heddlu wedi ymchwilio i safleoedd eraill ar gyfer y pencadlys gan fod y Swyddogion yn teimlo ei fod yn dderbyniol pan gynigiwyd y safle gan fod yr ardal wedi'i nodi ar gyfer busnes yn unol â pholisi.
- Yn ystod y cyfnod cyn y cais fe wnaeth y Swyddogion gynghori na fyddai unedau caeedig yn dderbyniol ar Llantarnam Parkway, fodd bynnag byddai codi rhan flaen y Pencadlys Heddlu arfaethedig yn cadw cymeriad agored yr ardal sy'n

wynebu Llantarnam Parkway, fodd bynnag byddai rhywfaint o'r nodweddion diogelwch yn weledol wrth deithio heibio, ac roedd y ceisydd wedi derbyn hyn.

- Nid oedd gan Swyddogion unrhyw broblemau gyda cheir yn teithio o'r pencadlys yn ystod oriau anghymdeithasol ac nid oedd Gwesty'r Parkway wedi codi unrhyw fater yn ymwneud â hyn chwaith.

5.6 Nododd nifer o aelodau eu bod yn falch bod Heddlu Gwent yn dymuno aros yn Nhorfaen, ac er eu bod yn cydnabod y pryderon ynghylch y traffig roedd hi'n fater o dafoli gan y byddai'r datblygiad yn darparu 500 o swyddi o ansawdd yn y sir a byddai'n rhoi hwb i'r economi yn enwedig o ystyried bod Cwmbrân wedi'i ddewis fel Canolbwynt Economaidd ar gyfer y cwm gan Lywodraeth Cymru.

5.7 Ar ôl cwblhau Cytundeb o dan Adran 106 Deddf Cynllun Tref a Sir mewn perthynas â'r materion y rhoddwyd sylw iddynt yn yr adroddiad, cytunodd yr Aelodau gyda 9 Aelod yn pleidleisio o blaid a 2 Aelod yn pleidleisio yn erbyn y dylai Pennaeth Cynllunio a Datblygu gael ei awdurdodi i roi caniatâd yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol neu unrhyw ddiwygiadau, ychwanegiadau neu achos o ddileu'r amodau hyn fel yr ystyrir yn angenrheidiol.

Gadawodd y Cynghorydd Jason O'Connell y cyfarfod, ac ni wnaeth ddychwelyd.

6. Cais Cynllunio – 18/P/0409/FUL

Newid Defnydd dros dro o ddefnydd C3 b i uned tai â chymorth ar gyfer hyd at 9 o drigolion yn ogystal â gweithiwr cefnogi llawn amser am gyfnod o dair blynedd yn Edlogan Villa, Ffordd Avondale, Sebastopol, Pont-y-pŵl.

6.1 Dangosodd y Prif Gynlluniwr luniau i Aelodau o Edlogan Villa ac amlinellu'r cais a rhoi sylwadau ar y canlynol:

- Gwnaeth gywiriad i'r adroddiad yn datgan y dylai amod 4 ar dudalen 62 adroddiad ddweud 'Dylai'r defnydd a ganiateir yma gael ei weithredu gan Hope Ministries yn unig nid Victory Church.
- Rhoddwyd Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer y defnydd presennol yn Edlogan Villa ym mis Hydref 2016 ac roedd wedi bod yn gweithredu ers bryd hynny.
- Roedd y cais presennol ar gyfer Caniatâd Cynllunio i gynyddu nifer y preswylwyr a byddai hyn yn tynnu'r defnydd allan o'r dosbarth defnydd C3 y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer. Roedd y cynnig i gynyddu nifer y trigolion o 5 i 9 ynghyd â gweithiwr cefnogi amser llawn. Roedd angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer mwy na 6 o drigolion yn byw gyda'i gilydd fel un aelwyd ac yn derbyn gofal neu mewn cynlluniau tai â chymorth.
- Roedd Edlogan Villa yn uned tai â chymorth mewn tir helaeth oedd yn cael ei guddio gan wrychoedd a choed gyda'i fynediad ei hun.
- Byddai angen addasiadau mewnol ac ystafell ymolchi ychwanegol i ddarparu ar gyfer preswylwyr ychwanegol.
- Roedd y cynllun ar waith gan Hope Ministries.

- Bu 8 o wrthwynebiadau mewn perthynas â chynnydd mewn sŵn ac aflonyddwch. Roedd trigolion hefyd wedi codi pryderon ynghylch digwyddiadau a chyfarfodydd cymrodoriaeth yn achosi problemau parcio ac aflonyddwch.
 - Cadarnhaodd Heddlu Gwent a Phrif Swyddog y Cyngor ar gyfer Diogelwch Cymunedol nad oedd ganddynt unrhyw broblemau arwyddocaol gyda'r safle ac nad oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson na throseddau'n gysylltiedig â'r cyfeiriad wedi'u cofnodi ar gofnodion y Cyngor na logiau'r Heddlu.
 - Fe wnaeth y ceiswyr gydnabod pryderon y cymdogion ac felly fe wnaethant gais am ganiatâd cynllunio dros dro am dair blynedd fel y gallai'r gweithrediad gael ei fonitro ac y byddai gan y Cyngor reolaeth dros y defnydd yn y dyfodol pe byddai unrhyw broblemau o ran rheoli'r safle.
- 6.2 Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn defnyddio ei disgresiwn fel cadeirydd i ganiatáu hawl i'r ceisydd gael ymateb ar ôl aelod y ward.
- 6.3 Fe wnaeth y Cynghorydd Stuart Ashley ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu gan ei fod wedi ymwneud â'r cais yn y gorffennol mewn perthynas â'r materion yn y ward hon ac nid oedd yn teimlo'n gymwys i bleidleisio ac fe adawodd y cyfarfod.
- 6.4 Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd Siaradwyr Trydydd Parti i annerch y Pwyllgor.
- 6.5 Fe wnaeth y Cynghorydd Anthony Hunt (Cynghorydd Bwrdeistref Sirol ac Aelod Ward ar gyfer Panteg) amlygu'r pwyntiau canlynol:
- Roedd yn siarad fel aelod ward ar gyfer Ward Panteg mewn ymateb i etholwyr oedd wedi cysylltu ag efo gyda phryderon yr oedden nhw am iddo eu codi gyda'r gobaith o wella ymgysylltu yn y dyfodol.
 - Dywedodd nad oedd unrhyw un yr oedd wedi siarad â nhw yn erbyn y syniad o uned i helpu pobl gyda phroblemau cam-drin sylweddau, fodd bynnag roedd angen ei wneud mewn ffordd oedd yn diogelu trigolion ac yn cynnal ac yn lleihau effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar eiddo cyfagos.
 - Roedd rhwystredigaeth wedi'i fynegi iddo gan drigolion lleol am y diffyg cyfathrebu mewn ymateb i'r materion roedden nhw wedi'u codi megis Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sŵn, parcio annigonol ar y safle ac nad oedd ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd am sut roedd y cyfleuster yn cael ei reoli.
 - Roedd yn croesawu'r ffaith mai caniatâd cynllunio personol fyddai hwn pe byddai'n cael ei gymeradwyo ac felly na fyddai modd ei drosglwyddo i unrhyw weithredwr arall.
 - Gobeithiai y gallai'r safle barhau i gael ei fonitro ac y byddai'n elwa ar well cyfathrebu a chyswllt i dawelu meddwl trigolion lleol.
- 6.6 Darllenodd Mr Stephen Peel (Asiant) ddatganiad ar ran y ceisydd gan na allai fod yn bresennol am ei fod yn darparu gofal lliniarol i'w fam oedd yn wael. Roedd y datganiad yn cynnwys y pwyntiau canlynol:
- Ers agor yr elusen yn y DU ym mis Ebrill 2016, roedden nhw wedi gweld rhai cyflawniadau anhygoel gyda mwy na 22 o bobl yn ôl mewn gwaith llawn amser neu addysg o ganlyniad i'w cefnogaeth.

- Roedd gan bob un o'u cartrefi bolisi drws agored ac roedd unrhyw un oedd wedi ymweld wedi'u rhyfeddu gyda'r gefnogaeth a'r ansawdd roedd yr amgylchedd yn eu cynnig.
- Roedd yn bwysig nodi nad oeddent yn gyfleuster gofal ac nad oeddent yn cynnig unrhyw elfennau gofal. Roedden nhw'n cynnig cefnogaeth a rhaglen strwythuredig oedd yn galluogi pobl i ail-adeiladu eu bywydau.
- Pan wnaethant gais yn gyntaf am Ganiatâd Cynllunio yn 2016, roedd 93 o wrthwynebiadau ysgrifenedig yn erbyn y gwasanaeth, fe wnaeth y gymuned drefnu rali a siaradodd cynghorwyr ward yn erbyn eu gwaith.
- Fe wnaethant gymryd y penderfyniad i leihau eu gwaith mewn ymgais i ddangos ewylllys da ac i fodloni'r gymuned leol ar gost sylweddol i'r elusen fach. Roedd y gwasanaeth yn gweithredu ar hanner capasiti mewn eiddo mawr am swm sylweddol o amser.
- Ddwy flynedd yn ddiweddarach dim ond 8 o lythyrau gwrthwynebu oedd bellach, oedd yn destament i'r gwasanaeth.
- Roedd llawer o bobl wedi dweud wrthyn nhw sut maen nhw wedi helpu i newid eu barn am y gwaith oedd wirioneddol ei angen gyda'r rhai oedd yn gwella yn dilyn camddefnyddio alcohol neu sylweddau.
- Ni fyddent yn newid meddwl pawb byth gan fod rhai pobl nad oedd am ei gael ar garreg eu drws.
- Mewn ymgais i ddangos eu hymrwymiad roeddent wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio dros dro yn unig er mwyn galluogi i'w gwaith fod yn agored i graffu gan fod y gymuned leol o bwys iddynt.
- Roedd 1 o bob 5 o bobl yn Nhorfaen wedi'u heffeithio gan gam-drin cyffuriau neu alcohol ac roedd hi'n amser i elusennau fel ei helusen nhw gael cefnogaeth lawn gan Awdurdodau Lleol i fod yn rhan o'r ateb.
- Ni fu unrhyw agos o darfu nag unrhyw alwad i'r heddlu ynghylch eu heiddo, ac ni chymerwyd unrhyw gyffuriau nag alcohol yno.
- Yn yr holl amser o redeg y prosiect un person yn unig roedden nhw wedi gorfod ei droi allan. Fe wnaeth y person hwnnw ddefnyddio cyffuriau ar ymweliad i weld eu teulu, ac roedd hyn yn destament i'r rheolaeth a'r gweithdrefnau da yn yr eiddo.
- Roedd opsiynau'n seiliedig ar ffydd yn ddewis personol i bobl oedd yn gwella a byddant yn gweithio gyda phobl o bob ffydd ac ni fyddai unrhyw bwysau'n cael ei roi ar unrhyw un.
- Yn olaf, mewn perthynas â chyfarfodydd wythnosol ar nosweithiau Mawrth, roedd ychydig o ferched Cristnogol yn mynd â chacennau yno ac roedd hyn yn golygu bod tri char ychwanegol yn yr eiddo, fodd bynnag roedd llawer iawn o fannau parcio ar y safle a chilfan yn union y tu allan.

6.7 Rhoddwyd yr ymatebion canlynol gan Swyddogion mewn perthynas â chwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau:

- Roedd dosbarth C3 ar gyfer tai annedd ac yn y dosbarth hwnnw roedd tair adran, roedd C3b yn cael ei ddosbarthu fel tŷ annedd a ddefnyddir gyda dim mwy na chwech o bobl yn byw gyda'i gilydd fel un aelwyd lle darparwyd elfen o ofal. Ystyriwyd C3b yn ddefnydd cyfreithlon o'r eiddo ar y pryd. Unwaith roedd dros 6 o

bobl yn byw yn yr eiddo tai â chymorth mae'n dod yn Sui Generis oedd yn ddsbarth ynddo ei hun ac na ellid ei gynnwys mewn unrhyw ddsbarth arall. Byddai angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer unrhyw newid o ran defnydd yn y dyfodol.

- Nid oedd swyddogion yn ymwybodol o lefel y cyswllt rhwng y gwasanaeth a'r trigolion lleol.
- O ran digwyddiadau yn yr eiddo, roedd Swyddogion wedi derbyn un alwad ffôn yn cwyno am ddigwyddiad oedd yn cael ei gynnal yno ond dyna'r unig un a dderbyniwyd. Nid oedd Swyddogion yn gallu rheoli digwyddiadau o dan y defnydd cyfredol o C3b, fodd bynnag gan fod y cais am ganiatâd cynllunio gellid atodi amod er mwyn rheoli unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol.
- Mae trigolion wedi cael rhai problemau gan eu bod wedi gwneud sylwadau i'r Adran Cynllunio fel rhan o'r broses ymgynghori ac roedd yr aelod ward wedi dweud wrth y pwyllgor i'r adran gysylltu gydag ef yn uniongyrchol. Fe wnaeth Swyddogion gysylltu gyda'r Heddlu a Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y Cyngor ac fe wnaethant nodi nad oedd ganddynt gofnod o gwynion neu bryderon, fodd bynnag gallai fod yn bosibl bod y trigolion wedi dewis peidio mynd i lawr y llwybr swyddogol ac wedi cysylltu â'r aelodau ward yn lle hynny.
- Roedd sylwadau Heddlu Gwent wedi'u cynnwys ar dudalen 59 yr adroddiad a nodwyd bod eu cofnodion yn dangos na fu unrhyw broblemau mawr yn yr eiddo.

6.8 Cytunodd yr Aelodau i gymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig ar yr amodau a nodwyd yn yr adroddiad gyda 4 Aelod yn pleidleisio o blaid a 5 Aelod yn ymatal rhag pleidleisio.

Llofnod

Dyddiad

Y Cynghorydd Norma Parrish, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Ni restrir y cynghorwyr a adawodd y cyfarfod am gyfnod byr (e.e. ar gyfer egwyl) yn ystod cyflwyniad swyddog neu ddadl yn y cofnodion uchod fel cynghorwyr wnaeth adael ac na wnaeth ddychwelyd. Rhestrir bod cynghorwyr wedi gadael/heb ddychwelyd os oedden nhw'n absennol o'r Siambr pan wnaed penderfyniad.

Ysgrifennwyd y cofnodion gan Rachel Beale, Uwch Swyddog Cefnogi Busnes (Gwasanaethau Democrataidd), Dydd Mawrth 18 Medi 2018